

# Cofnodion



## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), D Davies, D Batrouni, J Clarke, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall

### 1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Dim wedi'u derbyn.

### 2 Datganiadau o ddiddordeb

Datganodd y Cyngorydd Davies wrthdaro buddiannau o dan Eitem 7: Trefniadau Gwasanaethau Eiddo.

### 3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd Cofnodion cyfarfod 14 Chwefror 2024 eu derbyn fel cofnod cywir.

### 4 Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Chwarter 3)

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad cyntaf ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer diwedd Chwarter 3 (1 Hydref i 31 Rhagfyr 2023).

Nododd yr Arweinydd gyda chydweithwyr fod y Cabinet yn adolygu'r risgiau; tra bo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r trefniadau rheoli risg a'r prosesau llywodraethu a gall ddarparu eu sylwadau yn ôl i'r Cabinet ar ôl ystyried adroddiad risg Chwarter 3 yn eu cyfarfod yn ddiweddarach y mis hwn.

Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd gan yr Awdurdod 43 o risgiau wedi'u cofnodi ar draws un ar ddeg o wasanaethau'r Cyngor.

Cafodd y risgiau hynny yr ystyriwyd eu bod yn peri'r risg fwyaf sylweddol wrth gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac wrth ddarparu ei wasanaethau eu huwchgyfeirio i Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i'w monitro.

Ar ddiwedd Chwarter 3, cofnodwyd 15 o risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

- 8 Risg Ddifrifol (15 i 25).
- 7 Risg Fawr (7 i 14)

O'i gymharu â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol Chwarter 2, roedd un risg - cwblhau'r cynllun Archwilio Mewnol - wedi gostwng o 16 i 9 yn dilyn y cynnydd a wnaed gan wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Roedd yr Arweinydd yn falch o adrodd hyn yn ôl i'r Cabinet.

Adroddwyd yr 14 o risgiau a oedd yn weddill gyda'r un sgôr risg â Chwarter 2.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

□ Nododd y Cynghorydd Davies fod y galw am Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anghenion Addysgol Arbenigol (AAA) yn parhau i fod ar oren gan fod nifer cynyddol o blant yng Nghasnewydd yn cael diagnosis o ADY. Nid yw hyn yn unigryw i Gasnewydd ac roedd yn ymddangos ei fod oherwydd ystod o ffactorau. Soniodd y Cynghorydd Davies fod ardal y gwasanaeth yn gweithio'n galed gydag ysgolion i ddarparu cymorth a chefnogaeth lle bo angen, tra'n cydnabod bod angen mwy o gyllid. O ganlyniad, croesawodd y Cynghorydd Davies y £300,000 ychwanegol a gyhoeddwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cabinet a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n benodol i gefnogi'r plant hyn.

□ Soniodd y Cynghorydd Lacey am yr asedau a'r ystadau eiddo a oedd wedi cynyddu'r risg o Chwarter 1 2023-24 i Chwarteri 2 a 3 o 2023-24 o 16 i 20. Er i'r Cynghorydd Lacey groesawu'r symiau ychwanegol o £200,000 i'r maes hwn, rhaid nodi bod ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r Cyngor yn £100m ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â heriau eraill o gynnal a chadw'r adeiladau hyn sy'n eiddo i'r Cyngor, roedd y prosiect datgarboneiddio hefyd yn cael ei reoli ar draws yr ystâd. Roedd cynllun rheoli asedau strategol newydd yn cael ei ddatblygu, gyda chefnogaeth rhesymoli asedau, ac felly roedd yn gobeithio rheoli'r risgiau cystal â phosibl.

□ Nododd y Cynghorydd Forsey fod y risg fwyaf mewn gwasanaethau plant.

□ Ategodd y Cynghorydd Marshall sylwadau cydweithwyr am y ffactorau risg yn y gwasanaethau cymdeithasol a rhoddodd sicrwydd i gydweithwyr fod y maes gwasanaeth yn edrych ar y posibiladau gorau i'w liniaru, gan gynnwys gwaith yn ymwneud â buddsoddiadau.

□ Diolchodd yr Arweinydd i'w gydweithwyr am eu cyfraniadau, a gobeithiai hyn ei gwneud yn glir, fel Cabinet, y dangoswyd y ddealltwriaeth o'r risgiau i'r awdurdod a darparu gwasanaethau statudol a chynllun corfforaethol. Yn ogystal, llwyddodd y Cabinet i fynd i'r afael â risg drwy roi mesurau lliniaru ar waith i helpu i reoli'r effeithiau posibl.

Penderfyniad:

Ystyriodd y Cabinet gynnwys diweddariad Chwarter 3 ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a nodwyd y risgiau.

## 5 **Polisi Rheoli Risg**

Cyflwynodd yr Arweinydd gymeradwyaeth Polisi Rheoli Risg Cyngor Dinas Casnewydd gan gynnwys Datganiad Awydd Risg y Cyngor.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am ddarparu llu o wasanaethau (statudol ac anstatudol) i breswylwyr, busnesau a defnyddwyr gwasanaeth eraill.

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n gwella'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau hyn a gwelliannau i gymunedau, wrth reoli'r risgiau a allai atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei flaenoriaethau strategol.

Mae'r Polisi Rheoli Risg hwn yn nodi awydd risg y Cyngor hwn i reoli'r cyfleoedd a'r risgiau hyn, a'i ddull o wneud penderfyniadau.

Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu'r Polisi Rheoli Risg mewn cydweithrediad rhwng y Cabinet a'r uwch dîm rheoli yn y Cyngor.

Bu'r Polisi hefyd yn ystyried barn timau'r Cyngor sy'n ymwneud â gweithgarwch risg gweithredol a strategol megis Argyfyngau Sifil, Iechyd a Diogelwch, Archwilio Mewnol, Yswiriant, Cyllid a meysydd gwasanaeth eraill.

Nid yw datganiad archwaeth risg y Cyngor yn gysyniad sengl neu sefydlog ac mae yna ystod o archwaeth am wahanol risgiau dros amser.

Mae'n bwysig bod y Cyngor wedi mabwysiadu cyfleoedd a risgiau yn seiliedig ar benderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau cefnogaeth o gynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau, gwerth cymdeithasol a diogelu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Cynigiwyd deg maes risg i gefnogi'r ystod eang o weithgareddau a gynhaliwyd gan y Cyngor ac yn cyd-fynd ag arfer gorau o ran rheoli risg.

Cyflwynwyd y Polisi hwn i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ym mis Ionawr, a dderbyniodd y datganiad Polisi ac Awydd Risg arfaethedig.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Polisi, byddai tîm Rheoli Risg y Cyngor yn cyfathrebu, yn darparu hyfforddiant ac yn ymgorffori'r polisi ym mhrosesau'r Cyngor.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

□ Croesawodd y Cynghorydd Davies y canllawiau a ddarparwyd gan y polisi wrth benderfynu ar gynllun gweithredu. Nid yw hyn yn cymryd lle asesiad llawn o'r risg ond mae'n dangos safbwynt y Cyngor pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n gadarnhaol iawn bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi benderfynu bod eu hawydd am risg yn cael ei ddiffinio gan y gweithgaredd; esboniwyd hyn yn glir yn y polisi a galluogodd Aelodau'r Cabinet a swyddogion i fesur y safiad i'w gymryd yn briodol. Ychwanegodd y Cynghorydd Davies fod hwn yn ddarn o waith gwybodus a ymchwiliwyd gyda phroses ymgynghori oedd yn sail iddo. Croesawodd y Cynghorydd Davies y byddai adolygiad rheolaidd. Gan y gall yr awydd am risg newid, weithiau gan adlewyrchu deinameg a materion sydd eto i'w gwireddu.

Penderfyniad:

Cymeradwyodd y Cabinet bolisi rheoli risg a datganiad awydd risg y Cyngor.

## 6 Datganiad Tâl a Gwobrwyo 2024/25

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad blynyddol i'r Cabinet i'w adolygu ac argymhell i'r Cyngor llawn gael ei gymeradwyo fel rhan o'r cylch blynyddol arferol i ganiatáu ei gyhoeddi.

Mae Polisi Cyflog a Gwobrwyo'r Cyngor ar gyfer y gweithlu yn adroddiad blynyddol sy'n gofyn am gael ei fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r polisi'n nodi'r mecanweithiau mewnol ar gyfer tâl swyddogion y Cyngor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau ers y mabwysiadu diwethaf yn 2023.

Cefnogwyd unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf gan y prosesau democrataidd neu swyddogion cywir a'u nodi yn yr adroddiad eglurhaol.

Nododd y Cabinet y penderfyniad i alinio cyfraddau tâl rhaglen brentisiaethau'r Cyngor â chyfraddau cyflog y Sefydliad Cyflog Byw. Roedd y newid critigol hwn yn unol â dyhead y Cyngor i fod yn ddinas cyflog byw. Roedd y newid hwn hefyd yn galluogi'r Cyngor i recriwtio

20 prentis ychwanegol yn llwyddiannus dros y chwarter diwethaf gan ddefnyddio cyllid grant drwy'r Gronfa Codi'r Gwastad. Roedd cynnig a chyflogi rolau lefel mynediad fel prentisiaethau yn bwysig i'r Cyngor yn ei strategaethau recriwtio a chadw parhaus ac ymyrraeth bwysig fel rhan o Gynllun Pobl newydd y Cyngor ar gyfer ei weithlu. Cafodd yr Arweinydd y pleser o gyfarfod â'r garfan ddiweddaraf o brentisiaid yn ddiweddar.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Roedd y Cynghorydd Harvey yn falch bod Casnewydd yn ddinas cyflog byw ac yn croesawu'r newyddion am ychwanegu 20 o brentisiaid newydd.
- Cefnogodd y Cynghorydd Batrouni yr adroddiad.
- Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Batrouni am ei waith ar yr adroddiad.

Penderfyniad:

Adolygodd ac argymhellodd y Cabinet y Polisi Talu a Gwobrwyo i'r Cyngor er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i ddatganiad polisi tâl gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Cyngor yn flynyddol.

## 7 Trefniadau Gwasanaethau Eiddo

*Datganodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Davies fuddiant yn yr eitem hon.*

Cyflwynodd yr Arweinydd y cynnig i gytuno ar y model yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau eiddo yng Nghyngor Dinas Casnewydd.

Ym mis Gorffennaf 2014, creodd Cyngor Dinas Casnewydd a Gwasanaethau Masnachol Norse gytundeb Cyd-fenter i ffurfio Newport Norse ar gyfer darparu gwasanaethau eiddo, a adenillodd dros £4M i'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i drigolion Casnewydd yn ystod y 9 mlynedd diwethaf.

Roedd y bartneriaeth bresennol yn darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys rheoli cyfleusterau, rheoli ystadau, dylunio a chynnal a chadw adeiladau, rheoli a glanhau safleoedd.

Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd y Cabinet estyniad i'r trefniant presennol hyd at fis Rhagfyr 2025. Roedd hyn yn caniatáu i'r Cyngor archwilio'r model gwasanaeth presennol ac asesu'r gofynion yn y dyfodol i fodloni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Roedd yr Arweinydd yn falch bod adroddiad ac argymhellion y Cabinet wedi cyflwyno gwaith a gwblhawyd o gydweithio â Phwyllgor Rheoli Craffu Trosolwg y Cyngor drwy Grŵp Adolygu Polisi, gyda chefnogaeth cyngor allanol a bwrdd prosiect traws-sefydliadol.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r hanes llwyddiannus a'r berthynas gydweithredol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Newport Norse ond roeddent hefyd yn cydnabod yr angen am newid.

Wrth drafod ac asesu'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor, ystyriodd y Grŵp Adolygu Polisi nifer o opsiynau megis: rhoi gwasanaethau ar gontract i'r Cyngor; adnewyddu neu ddiweddarau'r trefniant presennol gyda Norse; Cwmni Buddiant Cymunedol; Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol hyd braich; a model gwasanaeth a rennir.

Cafodd yr holl opsiynau a gynigiwyd eu hystyried yn ofalus, gan archwilio'r cyfleoedd a'r risgiau, aliniad strategol i flaenoriaethau'r Cyngor, gwerth cymdeithasol i'r Cyngor a thrigolion Casnewydd, hyfywedd ariannol, ansawdd darparu gwasanaethau a rhywyddineb cyflawni.

Nododd canlyniadau'r asesiad mai'r model a ffefrir a mwyaf hyfyw ar gyfer y Cyngor oedd symud i Gwmni Masnachu Awdurdodau Lleol sy'n eiddo llwyr ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan Newport Norse.

Argymhellodd Grŵp Adolygu Polisi'r Cyngor y dylid darparu adnoddau digonol i symud i'r model gweithredu a nododd bwysigrwydd lleihau priodoli staff er mwyn lleihau'r risg ar y gwasanaethau pwysig a ddarperir gan Newport Norse.

Argymhellodd y Grŵp Adolygu hefyd y dylai'r model yn y dyfodol fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer twf yn y dyfodol fel gwasanaethau a rennir neu ehangu gwasanaethau ychwanegol; a bod y rhaglen waith barhaus wedi'i hadrodd yn ôl i Graffu a'r Cabinet.

Drwy gydol y broses hon, roedd rheolwyr a staff o Newport Norse yn cymryd rhan ac yn ymgynghori â nhw. Ar ran y Cabinet hwn, diolchodd yr Arweinydd i weithlu Norse am eu rhan wrth i'r Cyngor ystyried a thrafod yr opsiynau.

Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r Cynghorwyr a gymerodd ran fel rhan o'r Grŵp Adolygu Polisi a'r Pwyllgor Rheoli Craffu Trosolwg .

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

□ Roedd y Cynghorydd Lacey yn falch o gefnogi'r papur yn llawn. Roedd hwn yn gyfle i'r Cyngor ac edrychai ymlaen at gwmni Cyngor Dinas Casnewydd mewn perchnogaeth lawn. Roedd y Cynghorydd Lacey hefyd am ddiolch i Graffu a swyddogion am waith cydweithredol ac adolygiad manwl o opsiynau i alinio blaenoriaethau yn well. Rhaid deall bod hyn yn gofyn am elfen o fuddsoddiad ond fel y dywedodd yr Arweinydd, roedd cyfleoedd hefyd i ddatblygu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol, ehangu ystod o wasanaethau, neu ddarparu gwasanaeth a rennir. Yn bwysig, roedd y Cyngor yn gallu gweithio gyda rheolwyr a staff Norse a byddai'n parhau i wneud hynny wrth symud ymlaen. Byddai'r Cyngor yn cydweithio â rhanddeiliaid wrth i hyn fynd yn ei flaen, ond ar hyn o bryd, roedd yn fusnes fel arfer, gan weithio gyda Norse.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet, mewn egwyddor, ar y model ar gyfer darparu gwasanaethau eiddo fel cwmni masnachu awdurdodau lleol fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Cyfarwyddodd y Cabinet y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â Swyddogion Statudol y Cyngor:

1. Paratoi dogfen gynnig ynghylch sefydlu cwmni hyd braich sy'n eiddo llwyr i'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau eiddo i'r Cyngor o fis Ionawr 2026.
2. I gael cyngor a gwybodaeth o'r fath yn ôl yr angen er mwyn galluogi paratoi'r ddogfen honno.
3. Cymryd camau symud o'r fath yn ôl yr angen i alluogi sefydlu'r model newydd, ond heb gynnwys cofrestru'r cwmni yn Nhŷ'r Cwmnïau.
4. Adrodd yn ôl i'r Cabinet yn nes ymlaen ynglŷn â chynnig a chynnydd yr uchod.

## 8 Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu - Rhaglen Dreigl ar gyfer Buddsoddi 2024/2033

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad nesaf i'r Cabinet. Roedd y Cyngor yn agosáu at ddiwedd ei raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Band B, a oedd eisoes wedi cyflawni prosiectau sylweddol.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet ganolbwyntio ar y don nesaf o fuddsoddiad o dan y cynllun hwn, ac i gefnogi hyn, roedd yr Arweinydd yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn ei hymrwymiad ariannol i gefnogi prosiectau ar gyfradd ymyrraeth o 65%. Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor, roedd y cynllun felly'n gyfle gwych i fuddsoddi yn ei adeiladau sygol.

Roedd angen cyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer y rhaglen fuddsoddi dreigl 9 mlynedd nesaf i Lywodraeth Cymru i'w hystyried erbyn 31 Mawrth 2024. Felly, gofynnodd yr adroddiad hwn i'r Cabinet ystyried a oedd yr amcanion buddsoddi a nodwyd yn briodol ac y dylid eu cefnogi.

Gyrrwyd y rhaglen gyffredinol gan nodau strategol megis lleihau llety ysgolion o ansawdd gwael, sicrhau digon o leoedd mewn ysgolion, creu lleoedd a llwybrau cyfrwng Cymraeg ychwanegol, a darparu adeiladau carbon-niwtral. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r rhaglen 9 mlynedd yn darparu cyfleusterau addysg newydd a newydd yn Ysgol Gynradd Millbrook ac Ysgol Gyfun Caerllion a byddai'n cefnogi agor dwy ysgol a arweinir gan ddatblygwyr yn nwyrain y ddinas. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau digonolrwydd hirdymor lleoedd ysgolion uwchradd, i dyfu'r cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, ac i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Amcangyfrif o werth y rhaglen yw £110M, a gyda Llywodraeth Cymru yn darparu 65% o arian cyfatebol, roedd angen ymrwymiad y Cyngor oddeutu £38.5m dros 9 mlynedd.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

□ Tynnodd y Cyngorydd Davies sylw at bwysigrwydd yr adroddiad wrth iddo weithio tuag at ddatblygu'r rhaglen dreigl a byddai'n gwella ysgolion yng Nghasnewydd. Byddai'r rhaglen dreigl 9 mlynedd yn gweld cyllid gan Lywodraeth Cymru o 65%, a aeth yn bell tuag at adeiladu'r ysgol newydd ym Metws. Roedd hwn yn gamp wych i'r plant ym Metws. Roedd ffocws penodol ar gyfleusterau addysg newydd i gymryd lle cyfleusterau o ansawdd gwael ac roedd yn bwysig sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Bwriad y Cyngor oedd ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ar y sbectrwm awtistiaeth, gyda chynlluniau i ddarparu 40 lle ychwanegol ar safle a nodwyd yng Nghasnewydd. Yn yr achos hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o 75%. Mae ymrwymiad i leihau ôl-troed carbon yn flaenoriaeth allweddol, a'r bwriad oedd i'r rhaglen gyflawni adeiladau newydd sero net, fel rhan o'r cynllun wrth symud ymlaen. Amcangyfrifir bod gwerth o £110M, fel y crybwyllwyd gan yr Arweinydd, gydag ymrwymiad gwariant o £38M gan y Cyngor. Mae hwn yn gyfle cyffrous, ac mae'n bwysig cael hyn yn iawn ar gyfer dyfodol plant Casnewydd. Fel cyngor gwrando, byddai ymgynghoriadau a thrafodaethau yn y dyfodol yn Craffu yn digwydd wrth i'r cynlluniau hyn esblygu i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.

□ Cefnogodd y Cyngorydd Harvey sylwadau'r Dirprwy Arweinydd a soniodd am yr ysgol uwchradd o fewn ei ward, sy'n cefnogi dysgwyr ag anhwylder y sbectrwm awtistiaeth (ASA). Roedd disgyblion y Cyngorydd Harvey yn haeddu cael yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei ddarparu ar eu cyfer.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet fod yr amcanion buddsoddi yr oedd rhaglen dreigl 9 mlynedd Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Cyngor Dinas Casnewydd yn seiliedig arnynt yn briodol, a'r Rhaglen Amlinellol Strategol sy'n adlewyrchu'r amcanion hynny yn gallu cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

## 9 Pwysau allanol NCC - Costau Byw

Roedd yr adroddiad misol hwn a gyflwynwyd gan yr Arweinydd yn gyfle i sicrhau bod y Cabinet yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a wynebai'r preswylwyr yn ddyddiol.

Y prif heriau'n wynebu Casnewydd o hyd oedd yr argyfwng costau byw, pwysau ar wasanaethau tai a digartrefedd, a newidiadau yn y broses lloches a ffoaduriaid.

Parhaodd y Cyngor i ymateb i'r heriau hyn drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth i roi cymorth, cyngor ac arweiniad i drigolion.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod cyfarfod arall o'r glymblaid Wardiau Cartref yng Nghasnewydd ar y diwrnod cyn y Cabinet, i yrru strategaethau a chynlluniau ymlaen er mwyn helpu i fynd i'r afael â nodau'r Cyngor o ddod â digartrefedd i ben.

Roedd yr adroddiad yn darparu enghreifftiau o weithgareddau a chymorth a gynigiwyd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys gweithgareddau a darpariaeth bwyd yn ystod hanner tymor yr ysgol. Roedd llawer o waith rhagorol yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys dosbarthu bwyd hanfodol, cynhyrchion glanhau a hylendid, a thalebau siopa bwyd.

Roedd swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys ei Wasanaeth Atal a Chynhwysiant, hefyd yn cydweithio'n agos a gyda phartneriaid i gydlynu cefnogaeth dros y misoedd nesaf. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau'r Pasg ar gyfer plant a phobl ifanc, ac roedd yr Arweinydd yn falch o'u nodi.

Nododd y Cabinet hefyd y gwahanol brosiectau yr oedd yr adran Addysg a'r ysgolion yn eu cefnogi i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyrraedd eu potensial.

Anogodd yr Arweinydd unrhyw un sydd angen mynychu digwyddiadau galw heibio 'Meddwl yn Ddoeth – Byw yn Ddoeth' a oedd yn darparu gwybodaeth ac arweiniad sy'n gysylltiedig â chostau byw ar bynciau fel cyllidebu, rheoli biliau cyfleustodau a chyngor rhent.

Cynhaliwyd y sesiynau hyn dros dair noson gynnar yr wythnos, mewn gwahanol ardaloedd ar draws y ddinas, a gallai aelodau'r cyhoedd fynychu unrhyw leoliad am gyngor ac arweiniad.

Rhododd yr adroddiad wybodaeth am newidiadau cenedlaethol i gynlluniau cymorth Wcráin ac roedd swyddogion yn gweithio'n agos gyda chleientiaid a gwesteiywr i'w cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

Nododd yr Arweinydd hefyd fel Arweinydd a Chadeirydd Casnewydd yn Un, y parhaodd i eirioli dros weithio mewn partneriaeth fel rhywbeth sy'n hanfodol i gefnogi trigolion a busnesau ac unwaith eto, anogwyd unrhyw un a oedd mewn angen i gael gafael ar y cymorth a oedd ar gael iddynt.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

□ Croesawodd y Cyngorydd Davies yr adroddiad manwl ar y tîm Addysg a ddangosodd fod gan ysgolion Casnewydd, gyda tîm y GCA, wreiddiau i gefnogi teuluoedd allan o ddiweithdra ac allan o dlodi. Roedd prosiectau mewn ysgolion yn cynnwys y Sefydliad Ymgysylltu Cymunedol gyda 36 o ysgolion yng Nghasnewydd yn gweithio gyda'r sefydliad a chanolbwyntio ar ymgysylltu â theuluoedd i wella iechyd, cyrhaeddiad, cyflawniad a mynediad at gyflogaeth. Roedd nifer o ysgolion Casnewydd eisoes yn mynd yn syth i aur yn hytrach nag efydd, arian ac ambr, gan eu bod eisoes yn mynd y tu hwnt i hynny. Nod y Cynllun One Million Mentors oedd codi dyheadau dysgwyr i gael mynediad at hyfforddiant addysg bellach ac uwch. Amlinellodd adroddiadau effaith interim fod 63% o'r rhai a gafodd eu mentora yn dod o gefndiroedd difreintiedig. Cynhaliwyd digwyddiad Croeso i Addysg Casnewydd yn ddiweddar gan Wasanaeth Dysgwyr Amlyeithog Addysg Gwent ar gyfer plant oed ysgol mewn llety dros dro. Roedd yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth gan swyddogion Tai ac ysgolion. Yn ogystal, arweiniwyd gwersi a gweithgareddau cerddoriaeth ac offerynnau am ddim gan Gerddoriaeth Gwent ar gyfer pob plentyn a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim (PYADd); roedd 46 o ddisgyblion yng Nghasnewydd wedi elwa o'r cynnig hwn hyd yma yn y flwyddyn academaidd hon. Roedd y rhain i gyd yn bethau cadarnhaol a oedd o fudd i blant yng Nghasnewydd.

□ Tynnodd y Cyngorydd Marshall sylw at y gwaith rhagorol a wnaed yn y gymuned a nododd ddigwyddiad gwych a gynhaliwyd yn ddiweddar i artistiaid yn Y Gyfnewidfa Ŷd.

Roedd ffair swyddi niwroamrywiaeth hefyd, a grwpiau lles ar gyfer y rhai rhwng 7-24 oed, a ariannwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd. Cyn Diwrnod Rhyngwladol y Menywod manteisiodd y Cynghorydd Marshall ar y cyfle i ddiolch i fenywod yn y Cyngor a'r gymuned am eu harweinyddiaeth ysbrydoledig ac am y gwaith anhygoel a wnaethant.

- Ategodd yr Arweinydd sylwadau'r Cynghorydd Marshall ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ac roedd yn falch iawn o fynychu arddangosfa ffotograffiaeth, a gymerwyd gan un o gynrychiolwyr menywod Casnewydd, Camilla. Roedd yr arddangosfa eleni yn ymwneud â hyrwyddwyr cymunedol. Cafodd yr Arweinydd ei syfrdanu gan y menywod anhygoel a oedd yn gweithio bob dydd i gefnogi eu cymuned.
- Soniodd y Cynghorydd Harvey yn yr adroddiad ei fod yn nodi bod dros 900 o blant yn mynychu gweithgareddau hanner tymor. Yng Nghasnewydd, roedd 43% o bobl yn cael trafferth gyda'u biliau ynni, tanwydd a bwyd ac roedd 39% yn gweithio mewn tloidi. Daeth dros 3,000 o bobl i dros 157 o ddigwyddiadau lle cynnes. Ategodd y Cynghorydd Harvey nad oedd cywilydd mewn estyn allan a theuluoedd sy'n gweithio oedd yn derbyn parseli bwyd.
- Myfyriodd yr Arweinydd ar werth gwasanaethau cyhoeddus a'i bwysigrwydd i wead cymdeithas.
- Ategodd y Cynghorydd Lacey sylwadau cydweithwyr ac roedd yn ddiolchgar am swyddogion y Cyngor a'r gwaith anhygoel a wnaethant i breswylwyr, yn ogystal â'r ysgolion, gwirfoddolwyr ar draws y ddinas, Aelodau'r Cabinet, ac aelodau'r ward.
- Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig pwysleisio gwerth y bobl a'r gwirfoddolwyr ar draws y gymuned sy'n cefnogi trigolion ar y rheng flaen, yn enwedig swyddogion y Cyngor.

Penderfyniad:

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgarwch y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau Casnewydd.

## 10 Rhaglen Waith

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen waith.